

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Treffynnon

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Yn Ysgol Treffynnon, mae staff wedi ymrwymo i sicrhau lles pob disgybl unigol, ac mae hyn yn ganolog i waith yr ysgol. Mae ethos yr ysgol yn seiliedig ar SPIRIT - ysbrydoli hunan-gred (self-belief), dyfalbarhad (perseverance), parch (respect), uniondeb (integrity) ac ymddiriedaeth (trust) disgyblion. Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn ymdrechu i sicrhau eu bod yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd a'u bod yn barod i ddysgu. Yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol, mae gwaith yr ysgol gyda'r gymuned wedi arwain at welliannau sylweddol heb eu dilysu ym mhresenoldeb yr holl grwpiau o ddisgyblion, er bod presenoldeb ar y cyfan yn parhau i fod ychydig islaw lefelau cyn y pandemig. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon berthnasoedd gweithio cadarnhaol â'u disgyblion ac mae llawer o athrawon yn darparu profiadau dysgu difyr. Mewn llawer o achosion, mae gan athrawon reolaeth ystafell ddosbarth effeithiol, ac o ganlyniad, mae ymddygiad mewn gwersi yn dda, ar y cyfan. Fodd bynnag, dros amser, cafwyd achosion o ymddygiad gwael, sydd wedi achosi i gyfraddau gwaharddiadau'r ysgol fod yn uchel.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ystyriol ac yn cael cymorth medrus gan weddill yr uwch dîm arwain. Maent yn darparu cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain, staff a disgyblion. Er bod amrywiaeth yn ansawdd yr arweinyddiaeth ganol, mae arweinwyr ar bob lefel yn adnabod yr ysgol yn dda. Mae gan lawer ohonynt ddealltwriaeth addas o ansawdd y ddarpariaeth yn eu meysydd cyfrifoldeb. Maent yn cynllunio ar gyfer gwelliant yn effeithiol, gan ystyried yn ofalus pa ddysgu proffesiynol sydd ei angen. Mae hyn wedi arwain at welliannau nodedig mewn llawer o feysydd pwysig o waith yr ysgol, gan gynnwys presenoldeb, y ddarpariaeth i ddatblygu medrau darllen disgyblion, ac ansawdd yr addysgu. Mae'r ysgol mewn sefyllfa ariannol anodd ac mae ganddi ddiffyg ariannol sylweddol ar hyn o bryd.

Mewn llawer o achosion, mae'r addysgu'n effeithiol. Yn yr achosion hyn, mae athrawon yn cynllunio'u gwersi'n ofalus i sicrhau bod disgyblion yn cael eu herio i feddwl yn ddwfn. Maent yn monitro cynnydd disgyblion yn fanwl ac yn darparu adborth defnyddiol sy'n helpu disgyblion i wybod sut i wella'u gwaith. O ganlyniad, yn y gwersi hyn, mae disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Mewn lleiafrif o achosion, mae diffygion mewn addysgu, felly nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y dylent. Yn y gwersi hyn, nid yw disgyblion yn ymgysylltu'n ddigon da â'r gwaith ac nid ydynt yn datblygu eu medrau dysgu'n annibynnol. Mae'r ysgol wedi darparu hyfforddiant buddiol ar gyfer staff ar strategaethau effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd a digidol disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau rhifedd a Chymraeg disgyblion wedi'i datblygu'n ddigonol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Mae gennym 4 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:**

**A1 Lleihau cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol**

**A2 Gweithio gyda'r awdurdod lleol i ddileu'r diffyg yn y gyllideb**

**A3 Gwella'r ddarpariaeth gynyddol ar gyfer datblygu medrau rhifedd a medrau Cymraeg disgyblion**

**A4 Gwella'r addysgu mewn lleiafrif o achosion fel bod disgyblion yn ymgysylltu'n llawn â'r gwaith ac yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.**

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.




Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.